## Fframwaith Cymhwysedd Digidol
### Ar Drywydd Dysgu

| | | Map llwybrau ADD | Camau A | Camau B | Camau C |
|---|---|---|---|---|---|
| **Llinyn** | **Dinasyddiaeth – Drwy'r elfennau hyn bydd dysgwyr yn dod i ddeall beth yw bod yn ddinesydd digidol cydwybodol sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at y byd digidol o'u cwmpas ac sy'n gwerthuso'n feirniadol eu lle o fewn y byd digidol hwn. Byddant yn barod am yr agweddau cadarnhaol a negyddol o fod yn ddinesydd digidol a byddant yn datblygu strategaethau a dulliau i'w helpu wrth iddynt ddatblygu'n gynhyrchwyr ac yn ddefnyddwyr annibynnol.** | | | | |
| **Dinasyddiaeth** | **Elfen** | **Mae dysgwyr wedi cyflawni'r canlynol.** | **Yn fwyfwy annibynnol mae dysgwyr yn gallu:** | **Yn fwyfwy annibynnol mae dysgwyr yn gallu:** | **Yn fwyfwy annibynnol mae dysgwyr yn gallu:** |
| | Hunaniaeth, delwedd ac enw da | | • adnabod delwedd o'u hunain, e.e. *cyffwrdd llun o'u hwyneb ar sgrin* | • adnabod delweddau o bobl gyfarwydd, e.e. *edrych ar ffotograff o'u grŵp dosbarth* | • adnabod eu gwaith eu hunain/gwaith eraill, e.e. *adnabod mai eu gwaith nhw yw darn o waith o'i weld ar sgrin*<br>• deall bod angen cyfrinair/gweithred syml i gael mynediad at rai dyfeisiau, e.e. *sweipio dyfais i'w chychwyn* |
| | Iechyd a lles | Mynegi, mewn dulliau symbolaidd, ei fod yn well ganddo eitemau nad ydynt yn bresennol *[ADD 41]* | • dynodi eu bod yn dymuno defnyddio cyfryngau digidol, e.e. *defnyddio llun neu symbol i wneud cais am ddyfais neu gyfrwng digidol penodol* | • defnyddio amrywiaeth o wahanol gyfryngau, gan gynnwys rhai i greu, e.e. *defnyddio camera i dynnu ffotograff* | • dewis hoff eitemau ar gyfryngau digidol, gan gynnwys eitemau i greu, e.e *dewis eicon lluniadu/darlunio ar y wefan neu blatfform*<br>• pennu hoff eitemau eraill, e.e. *chwilio am eicon ar gyfer gwefan y mae dysgwr arall yn ei hoffi* |
| | Hawliau digidol, trwyddedu a pherchenogaeth | | • ymateb yn wahanol i ddelweddau o bobl gyfarwydd a delweddau eraill, e.e. *ystumio drwy fynegiant wynebol neu iaith y corff wrth wylio delweddau o'u hunain a ffrindiau, a delweddau'n ymwneud â chynnwys cwricwlwm perthnasol ar sgrin* | • dod o hyd i ffotograff/symbol/enw i'w hunain a phobl gyfarwydd eraill, e.e. *chwilio am ffotograffau ar albwm digidol* | • adnabod eu henw ar eu gwaith eu hunain a gwaith pobl eraill, e.e. *adnabod eu henw ar waith o amgylch yr ystafell ddosbarth* |
| | Ymddygiad ar-lein a seiberfwlio | Cyfleu `mwy'/'dim mwy' drwy ddwy weithred gyson wahanol, e.e. *defnyddio synau ac ystumiau i wneud cais am 'fwy'/'dim mwy', gwthio'r eitem i ffwrdd, troi pen i wrthod, gwenu [ADD 28]*<br>Tynnu sylw, e.e. *defnyddio ieithwedd y corff/lleisio neu ddull arall i ddenu sylw [ADD 32]*<br>Cychwyn gêm gymdeithasol, e.e. *rhoi arwydd i oedolyn am sba troed/tegan batri [ADD 33]* | • talu sylw i eitemau symudol/animeiddiedig ar-lein. | • gwylio eraill ar-lein, e.e. *gwylio pobl gyfarwydd ar sgrin â diddordeb*<br>• denu sylw oedolyn at rywbeth/rywun ar-lein, e.e. *defnyddio synau/ystumiau/dangos cyffro i ddenu sylw pobl eraill at eitemau ar sgrin*<br>• cyfathrebu hoffterau/anhoffterau syml, e.e. *derbyn neu wrthod gweithgaredd digidol a gynigir gan oedolyn.* | • rhyngweithio ag eraill ar-lein, e.e. *defnyddio cyfryngau sgwrsio fideo*<br>• adnabod eu hemosiynau eu hunain ar sgrin a dynodi hynny i oedolyn. |

OGL © Hawlfraint y Goron 2021 WG43132 ISBN digidol 978 1 80391 278 3

## Fframwaith Cymhwysedd Digidol
### Ar Drywydd Dysgu

| | Map llwybrau ADD | Camau A | Camau B | Camau C |
|---|---|---|---|---|
| **Llinyn** | **Rhyngweithio a chydweithio – Drwy'r elfennau hyn bydd dysgwyr yn edrych ar ddulliau cyfathrebu electronig ac yn gwybod pa rai sydd fwyaf effeithiol. Bydd dysgwyr hefyd yn storio data ac yn defnyddio technegau cydweithio yn llwyddiannus.** | | | |
| **Rhyngweithio a chydweithio** – **Elfen** | **Mae dysgwyr wedi cyflawni'r canlynol.** | **Yn fwyfwy annibynnol mae dysgwyr yn gallu:** | **Yn fwyfwy annibynnol mae dysgwyr yn gallu:** | **Yn fwyfwy annibynnol mae dysgwyr yn gallu:** |
| Cyfathrebu | Cyfleu ei ddewis i oedolyn sylwgar, *e.e. dewis un eitem o ddau drwy leisio neu ystumiau [ADD 37]*<br><br>Mynegi, mewn dulliau symbolaidd, ei fod yn well ganddo eitemau nad ydynt yn bresennol *[ADD 41]* | • cyfathrebu eu dewisiadau eu hunain ar gyfer detholiad bach o wrthrychau a rhyngweithiadau, *e.e. dewis sgwrs ffôn/fideo drwy ddewis y ddyfais briodol* | • cyfathrebu eu dewisiadau eu hunain mewn amrywiaeth o leoedd ar gyfer detholiad o wrthrychau a rhyngweithiadau, *e.e. dewis sgwrs ffôn/fideo/llun i gyfathrebu drwy ddewis y ddyfais briodol* | • defnyddio mathau gwahanol o gyfathrebu digidol, *e.e. profi a chymryd rhan mewn cyfathrebiadau llais, fideo neu destun syml* |
| Cydweithio | Rhannu sylw, *e.e. edrych yn ôl ac ymlaen rhwng oedolyn a'r gweithgaredd digidol [ADD 40]* | • cymryd tro gydag oedolyn sylwgar, *e.e. gweithredu gwneuthurwr cerddoriaeth a rhoi sylw i oedolyn pan mae tro'r oedolyn ydyw.* | • ymgysylltu â gweithgaredd digidol gyda chyfoed, *e.e. chwarae gêm gyda cheir a reolir o bell gan arddangos ymwybyddiaeth canlyniadau mewnbwn y person arall.* | • cyflawni gweithgaredd digidol a rennir a bod yn ymwybodol o effaith mewnbwn eraill, *e.e. cwblhau jig-so a sylwi bod y person arall wedi rhoi darn yn y lle anghywir a'i symud* |
| Storio a rhannu | | | | • adnabod gwaith digidol o sesiwn blaenorol. |
| **Llinyn** | **Cynhyrchu – Mae'r elfennau hyn yn ymdrin â'r broses gylchol o gynllunio (gan gynnwys chwilio am wybodaeth a dod o hyd iddi), creu, gwerthuso a mireinio cynnwys digidol. Er y gall y broses hon fod yn gymwys i feysydd eraill y fframwaith, mae'n arbennig o bwysig wrth greu a chynhyrchu cynnwys digidol. Mae hefyd yn hanfodol cydnabod, fodd bynnag, y gall cynhyrchu cynnwys digidol fod yn broses greadigol iawn ac nid yw'n fwriad llesteirio creadigrwydd o'r fath.**<br><br>**Mae cynnwys digidol yn cynnwys cynhyrchu testun, graffeg, sain, fideo ac unrhyw gyfuniad o'r rhain at amrywiaeth o ddibenion. Felly, bydd hyn yn cynnwys amryfal weithgareddau ar draws sawl cyd-destun gwahanol.** | | | |
| **Cynhyrchu** – **Elfen** | **Mae dysgwyr wedi cyflawni'r canlynol.** | **Yn fwyfwy annibynnol mae dysgwyr yn gallu:** | **Yn fwyfwy annibynnol mae dysgwyr yn gallu:** | **Yn fwyfwy annibynnol mae dysgwyr yn gallu:** |
| Cynllunio, cyrchu a chwilio | Dewis o blith dwy neu fwy o eitemau, *e.e. ymestyn am neu edrych at hoff eitem pan fod yno ddau eitem neu fwy (dyfais symudol, chwaraewr cerddoriaeth, meicroffon, ac ati) [ADD 36]* | • dynodi hoffter o fewn tasg ddigidol, *e.e. dewis hoff DVD neu gerddoriaeth drwy lun ar sgrin* | • dangos ymwybyddiaeth o'r hyn sydd ei angen i gwblhau tasg ddigidol, *e.e. defnyddio'r offer digidol a roddir iddynt i wneud tasg gyfarwydd fel gwneud darlun/tynnu ffotograff*<br><br>• defnyddio eicon ar sgrin i gael mynediad i raglen neu wefan benodol, *e.e dewis CD cerddoriaeth neu DVD fideo gan ddefnyddio eiconau ar sgrin, dewis hoff dudalen we, ac ati* | • dewis yr hyn sydd ei angen i gwblhau tasg ddigidol o ddewisiadau a gyflwynir, *e.e. dewis camera i dynnu ffotograff, allweddell i wneud cerddoriaeth*<br><br>• llywio drwy gyfres o eiconau/delweddau i ddod o hyd i'r eitem sydd ei angen (gwybodaeth/meddalwedd/cyfryngau), *e.e. sgrolio trwy wefan/meddalwedd cyfarwydd i ddarganfod gweithgaredd cyfarwydd* |
| Creu | Archwilio'r amgylchedd yn fwriadol, *e.e. ymestyn ar draws bwrdd i gyffwrdd tegan sy'n symud/tegan cerddorol [ADD 27]*<br><br>Cychwyn gweithredoedd i sicrhau'r canlyniad a ddymunir (ymarfer ymreolaeth mewn cyd-destunau amrywiol), *e.e. yn gwasgu swits i droi tegan ymlaen, cychwyn cerddoriaeth [ADD 43]* | • rhyngweithio â thechnoleg er mwyn cynhyrchu allbwn megis delwedd, sain neu fideo<br><br>• dangos pa gydrannau amlgyfrwng sydd orau ganddynt, gan gynnwys delwedd, sain a fideo. | • creu gwahanol allbwn megis llythrennau a symbolau, delwedd, sain neu fideo, a hynny'n fwriadol<br><br>• dewis hoff gydran amlgyfrwng o ddewis cyfyngedig o ddelwedd, sain a fideo | • creu allbwn at wahanol ddibenion gan ddefnyddio gwahanol gydrannau amlgyfrwng gan gynnwys llythrennau a symbolau, delwedd, sain, animeiddiad neu fideo |
| Gwerthuso a gwella | | | • dangos bodlonrwydd/anfodlonrwydd wrth edrych ar eu gwaith eu hunain. | • rhoi sylwadau ar eu gwaith eu hunain wrth ymateb i gwestiwn/gwestiynau penodol<br><br>• yn ddigymell, newid/cywiro eu gwaith eu hunain. |

OGL © Hawlfraint y Goron 2021 WG43132 ISBN digidol 978 1 80391 278 3

| **Fframwaith Cymhwysedd Digidol**<br>**Ar Drywydd Dysgu** | | **Map llwybrau ADD** | **Camau A** | **Camau B** | **Camau C** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Llinyn** | **Data a meddwl cyfrifiadurol – Mae meddwl cyfrifiadurol yn gyfuniad o ymholi gwyddonol, datrys problemau a sgiliau meddwl. Cyn i ddysgwyr allu defnyddio cyfrifiaduron i ddatrys problem, rhaid iddynt yn gyntaf ddeall y broblem a'r dulliau o'i datrys.**<br>**Drwy'r elfennau hyn bydd dysgwyr yn deall pwysigrwydd llythrennedd gwybodaeth a data; byddant yn archwilio agweddau ar gasglu, cynrychioli a dadansoddi. Bydd dysgwyr yn edrych ar sut mae data a gwybodaeth yn cysylltu i mewn i'n byd digidol, a bydd yn rhoi iddynt sgiliau hanfodol ar gyfer y gweithle modern, deinamig.** | | | | |
| **Data a meddwl cyfrifiadurol** | **Elfen** | **Mae dysgwyr wedi cyflawni'r canlynol.** | **Yn fwyfwy annibynnol mae dysgwyr yn gallu:** | **Yn fwyfwy annibynnol mae dysgwyr yn gallu:** | **Yn fwyfwy annibynnol mae dysgwyr yn gallu:** |
| | Datrys problemau a modelu | Dangos arwyddion cynnar o ddatrys problemau – rhoi cynnig ar strategaeth newydd pan fo'r hen un yn methu *[ADD 42]*<br>Cychwyn gweithredoedd i sicrhau'r canlyniad a ddymunir (ymarfer ymreolaeth mewn cyd-destunau amrywiol), *e.e. ceisio cael sylw oedolyn i wneud cais [ADD 43]* | • defnyddio ystod o ddyfeisiau achos ac effaith priodol<br>• copïo gweithredoedd, gan ddangos dechrau a diwedd<br>• cofio ymatebion a ddysgir dros gyfnod estynedig o amser | • defnyddio ystod o ddyfeisiau i greu'r effaith a ddymunir<br>• dangos ymwybyddiaeth gynyddol o ddilyniannau a phatrymau<br>• dilyn cyfarwyddiadau un cam | • defnyddio ystod o ddyfeisiau at ddibenion gwahanol<br>• copïo patrymau a dilyniannau syml<br>• dilyn cyfarwyddiadau dau gam |
| | Llythrennedd gwybodaeth a data | Archwilio'r amgylchedd yn fwriadol, *e.e. archwilio gwahanol amgylcheddau drwy gyffwrdd [ADD 27]* | • archwilio a chydweddu gwrthrychau o ddewis o ddau gan gopïo oedolyn. | • paru gwrthrychau neu luniau sydd yr un fath, a hynny'n annibynnol<br>• deall y gall un eitem gael ei gynrychioli drwy ffordd arall, *e.e. gwrthrych cyfarwydd a ffotograff o'r gwrthrych hwnnw*. | • paru gwrthrychau neu luniau nad ydynt yn union yr un peth<br>• pennu ac adnabod eitemau nad ydynt yn perthyn i set<br>• gwahanu gwrthrychau sy'n rhannu priodwedd benodol, *e.e. bach/mawr, glas/gwyrdd.* |

OGL © Hawlfraint y Goron 2021 WG43132 ISBN digidol 978 1 80391 278 3